gŵyl
ABERTEIFI
LIVE
festival

2026

30+31 hydref • october

# Rhaglen Yr Ŵyl / Festival Programme






# MAP

**1 Mwldan**
The Hub / Yr Hwb
(Casglu eich bandiau arddwn a gwybodaeth / Wristband collection and information)

**2 Theatr Byd Bach / Small World Theatre**

**3 Bethania**

**4 Y Seler / The Cellar**

**5 Canfas**

**6 GRAIN**

**7 STIWDIO / STUDIO 6**

Mynediad trwy risiau, dim llift / Access via stairs, no lift

Awen venue - gweler tudalen 44 am manylion pellach / see page 44 for details

Pwynt cymorth meddygol / medical assistance point

Man plant coll / lost children point

Am pwyntiau diffibriliwr lleol gweler / for local defibrillator points please refer to: **www.defibfinder.uk**

# Cynnwys / Contents

Gair o Groeso / Welcome note....4
Rhaglen / Schedule....8
Artistiaid / Artists....12
DJs....42
Sgyrsiau Awen Talks....44
Siaradwyr / Speakers....48
Noddwyr / Sponsors....53
Cwestiynnau Cyffredin + telerau ac amoddau/ FAQs + T&Cs....66





## Gair o Groeso

Ers 2019, mae Mwldan wedi cyflwyno pum rhifyn o ŵyl Lleisiau Eraill yn Aberteifi ar y cyd â'n partneriaid. Mae pob un wedi bod yn brofiad sy'n cadarnhau bywyd, gan uno ein cymuned mewn dathliad o gerddoriaeth, diwylliant, iaith, syniadau a mwynhad, ac wedi helpu i wneud ein tref werthfawr yn lle arbennig iawn. Mae hyn wedi gofyn am gymorth ariannol sylweddol gan Lywodraethau Cymru ac Iwerddon, sydd hefyd wedi dathlu ac wedi cadarnhau'r cysylltiadau arbennig rhwng Cymru ac Iwerddon. Yn anffodus, yn 2026, nid ydym wedi llwyddo i sicrhau digon o gyllid i alluogi cynnal rhifyn arferol o Leisiau Eraill. Ond rydym yn teimlo fod yn rhaid i ni geisio gwneud rhywbeth i ddigwydd nes y gallwn, gobeithio, ddod â rhifyn llawn o Leisiau Eraill yn ôl yn 2027.

Felly, ynghyd â'n partneriaid - Y Seler, Theatr Byd Bach, GRAIN, Fflach Cymunedol a Chapel Bethania – rydym yn cyflwyno Gŵyl ABERTEIFI LIVE 2026 i chi: deuddydd o gerddoriaeth ar draws pum lleoliad, yn cynnwys dros 45 o berfformiadau gan 15 band ac artist ar y 30ain a'r 31ain o Hydref 2026. Mae fel fersiwn hanner maint o Lleisiau Eraill, ond gyda'r un ysbryd, yr un gerddoriaeth wych, yr un awyrgylch a'r un dathliad o ddiwylliant. Bydd yn cynnwys artistiaid o Gymru ac Iwerddon, gan gynnwys hen ffefrynnau o ddigwyddiadau blaenorol o Lleisiau Eraill yn ogystal ag artistiaid newydd.

Y tro hwn, nid oes unrhyw gymhorthdal ariannol i'r ŵyl, ac mae'n rhaid talu am bob cost drwy werthu tocynnau a nawdd gan fusnesau lleol. Mae Mwldan yn ysgwyddo'r risg ariannol er mwyn gwireddu rhywbeth arbennig. Rydym wedi cadw prisiau'r tocynnau mor isel â phosibl, wrth dalu ffi deg i bawb sy'n cymryd rhan, boed yn artistiaid neu'n aelodau o'r criw.

Os oes gennych ddiddordeb ac eisiau ein helpu, y ffordd orau o gefnogi'r ŵyl gerddoriaeth fyw leol ac annibynnol hon yw prynu tocynnau'n gynnar, annog eich ffrindiau a'ch teulu i ddod draw o bell ac agos, a dod eich hunain i sicrhau ei bod yn llwyddiant ysgubol arall i Aberteifi a'r gymuned.

Gallwch ddod o hyd i bopeth sydd ei angen arnoch ar wefan Aberteifi Live, **aberteifilive.co.uk**

**Dilwyn Davies**
**Prif Weithredwr, Mwldan**






## Welcome note

Since 2019, Mwldan has delivered 5 editions of the Other Voices festival in Aberteifi alongside our partners. Each one has been a life-affirming experience, uniting our community in a celebration of music, culture, language, ideas, enjoyment and helping to make our precious town a very special place. It has taken considerable financial support from Welsh and Irish Governments, which has also celebrated and reaffirmed the special links between Wales and Ireland.

Sadly, in 2026, we have been unable to secure enough funding to enable a normal edition of Other Voices to take place. But we felt we had to try to make something happen until we can hopefully bring back a full edition of Other Voices in 2027.

So, along with our community partners - The Cellar, Small World Theatre, GRAIN, Fflach Cymunedol and Bethania Chapel - we are giving you Gŵyl ABERTEIFI LIVE 2026 - two days of music across five venues featuring more than 45 sets from 15 bands/artists on 30 & 31 October 2026. It's like a half-sized Other Voices, but with the same spirit, the same great music, the same vibe and the same celebration of culture.

And it features artists from Wales and Ireland, including some old favourites from past Other Voices as well as some new ones to discover.

This time, the festival has zero funding subsidy and every cost of the festival must be covered by ticket sales and local business sponsorship. And Mwldan is risking the financial underwriting of the festival in order to make something amazing happen. We have kept the price of tickets to an absolute minimum whilst paying everyone who is taking part as artist or crew with a proper fee.

If you care, and want to help us, you can support this local, independent live music festival best by buying tickets early, encouraging your friends and family to come along from near and far, and to come along yourselves to make sure it's another huge success for Aberteifi and its community.

You can find everything you need on the Aberteifi Live website,
**aberteifilive.co.uk**

**Dilwyn Davies**
**Chief Executive, Mwldan**

# RHAGLEN / SCHEDULE
## Dydd Gwener 30 Hydref/ Friday 30 October

### 5.30pm

**AWEN**
**MWLDAN: MAE'R RHOD YN TROI/**
**MWLDAN: THE TIMES THEY ARE A-CHANGIN'**
**Trafodaeth rhwng Dilwyn Davies a Hannah Firth/**
**Dilwyn Davies & Hannah Firth in conversation**
Canfas

### 7.00pm

**Dani Larkin /**
Mwldan 2

**Cerys Hafana /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Mared /**
Y Seler / The Cellar

**Muireann Ní Shé /**
Bethania

**Filmore! /**
GRAIN

### 7.30pm

**DJ Set - Mr A/**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 8.30pm

**Tessio /**
Mwldan 2

**Kizzy Crawford /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Mace The Great /**
Y Seler / The Cellar

**Lemoncello /**
Bethania

**Slate /**
GRAIN

### 9.00 pm

**DJ Set - Mr A/**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 10.00pm

**Filmore! /**
Mwldan 2

**Muireann Ní Shé /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Tai Haf Heb Drigolyn /**
Y Seler / The Cellar

**Cerys Hafana /**
Bethania

**Morn /**
GRAIN

### 10.30pm

**DJ Set - Andy Sonics /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 11.15pm

**Slate /**
Mwldan 2

**EtrA /**
Y Seler / The Cellar

### 11.30pm

**DJ Set - Andy Sonics /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 12.30am

**Tokomololo /**
Mwldan 2

### 01.00am

**DJ Set - Elishea /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

# RHAGLEN / SCHEDULE
## Dydd Sadwrn 31 Hydref/ Saturday 31 October

### 2.15pm

**AWEN**
**CYFLWYNO'R DDRAMA/ BRINGING THE DRAMA**
**Mared + Filmore!**
**Nico Dafydd**
**(llywydd / host / óstach)**
Bethania

### 3.15pm

**AWEN**
**GWERIN BOBL... / FOLK LIKE...**
**Gethin Scourfield**
**(llywydd / host / óstach)**
**Lemoncello / Cerys Hafana**
Mwldan 2

### 4.15pm

**Dani Larkin /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Mared /**
Bethania

### 4.30pm

**AWEN**
**Y DIWYLLIANT SY'N EIN CYMELL/ THE CULTURE THAT MOVES US**
**Gethin Scourfield**
**(llywydd / host / óstach)**
**Anna Nicoll MS / Sarah James MBE**
Canfas

### 5.45pm

**Muireann Ní Shé /**
Mwldan 2

**Lemoncello /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Tessio /**
Y Seler / The Cellar

**Kizzy Crawford /**
Bethania

**EtrA /**
GRAIN

### 7.15pm

**Tai Haf Heb Drigolyn /**
Mwldan 2

**Mared /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Mace The Great /**
Y Selar / The Cellar

**Dani Larkin /**
Bethania

**Morn /**
GRAIN

### 7.45

**DJ Set - Good Nature Party /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 8.45pm

**Lemoncello /**
Mwldan 2

**Slate /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Kizzy Crawford /**
Y Seler / The Cellar

**Cerys Hafana /**
Bethania

**Tokomololo /**
GRAIN

### 9.15pm

**DJ Set - Good Nature Party /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 10.15pm

**Mace The Great /**
Mwldan 2

**EtrA /**
Theatr Byd Bach / Small World Theatre

**Tai Haf Heb Drigolyn /**
Y Selar / The Cellar

**Tessio /**
Bethania

**Filmore! /**
GRAIN

### 10.30pm

**DJ Set - Yann De Galles/**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 11.15pm

**Morn /**
Mwldan 2

**Tokomololo /**
Y Seler

### 11.30pm

**DJ Set - Yann De Galles /**
Galeri y Mwldan / Mwldan Gallery

### 12.30am

**Aloka /**
Mwldan 2

# ARTISTIAID / ARTISTS

## ALOKA

Mae Aloka wedi dod i'r amlwg fel ffigwr blaenllaw ym myd cerddoriaeth electronig gyfoes, gan swyno cynulleidfaoedd ledled y byd. Gan darddu o Orllewin Cymru, mae wedi arddangos ei dalentau ar amrywiaeth o lwyfannau dylanwadol. Yn 2019, lansiodd Aloka ei label 'Typeless' yn dilyn cyfres o ryddhadau arwyddocaol ar labeli eraill, gan sefydlu ei hun fel artist gafaelgar sydd ag agwedd arbrofol. Gyda'i gynyrchiadau nodedig yn ennill clod gan gewri'r diwydiant, mae'n anghyffredin dod o hyd i gymysgedd cerddorol nad yw'n cynnwys un o'i draciau. Ynghyd â'i sgiliau DJ profiadol, sydd wedi arwain ato'n perfformio fel prif act mewn digwyddiadau ledled y byd, mae Aloka yn ymgorfforiad o dalent amlochrog. Trwy gyfuno ei weledigaeth unigryw â naws graenus cerddoriaeth electronig, mae wedi llwyddo i greu llwybr llawn lwyddiant, gyda phosibiliadau diddiwedd ar y gorwel.

**Aloka has risen as a prominent figure in the contemporary electronic music realm, captivating audiences globally. Originating from West Wales, he has showcased his talents across various impactful platforms. In 2019, Aloka launched his 'Typeless' label following a momentous string of drops on other imprints, establishing himself as a captivating artist with an experimental edge. With his sharp productions gaining accolades from industry giants, it's uncommon to find a mix without one of his tracks. Paired with his refined DJ skills that have led him to headline events worldwide, Aloka embodies a multifaceted talent. By infusing his unique vision into the gritty essence of electronic music, he has navigated his path to success, with boundless possibilities on the horizon.**

**Genre:**

**Electro / Tecno / Breaks**
**Electro / Techno / Breaks**



# CERYS HAFANA

Mae Cerys Hafana yn gerddor a chyfansoddwr eithriadol ac anturus sy'n ail-lunio, yn trawsnewid ac yn ail-greu cerddoriaeth draddodiadol yn brofiad hudolus, boed yn fyw neu wedi'i recordio. Wrth archwilio holl bosibiliadau ac ansawdd creadigol y delyn deires Gymreig, ac wrth arbrofi gyda synau, deunyddiau archifol a phrosesu electronig, mae ei cherddoriaeth swynol yn llawn awyrgylch ac emosiwn, ac yn gwrthod cael ei rhoi mewn blychau genre neu ei dosbarthu'n hawdd.

**Cerys Hafana is an exceptional, adventurous musician and composer who mangles, mutates and transforms traditional music into a captivating live and recorded experience. Exploring all the creative possibilities and qualities of the Welsh triple, playing with found sounds, archival materials and electronic processing, their spellbinding music is rich with atmosphere and heart, and stubbornly resistant to genre boxes and easy classification.**

**Genre:**

**Gwerin avant / Minimalaidd / Traddodiadol / Arbrofol**
**Avant folk / Minimalist / Traditional / Experimental**

***...one of the UK's most exciting and genre-defying contemporary folk artists***

**KLOF**



aberteifilive.co.uk

# DANI LARKIN

Mae Dani Larkin, cantores a gyfansoddwraig werin, cynhyrchydd a cherddor aml-offerynnol uchel ei bri sydd wedi'i lleoli ym Belfast ar hyn o bryd, wedi cael ei chanmol fel un o gyfansoddwyr caneuon gorau ein cyfnod. Profodd hynny'n wir yn ddiweddar gyda rhyddhad ei hail albwm, *Next Of Kin*, yn gynharach eleni. Mae'n archwiliad dwfn ac emosiynol o'r profiad dynol, gan olrhain taith o enedigaeth i dderbyn marwolaeth, gan gydbwyso gwrthddywediadau a chysylltiadau, ac archwilio themâu cyffredinol fel cariad, ofn a dewrder. Dewch i weld corff o waith sy'n diffinio gyrfa ac yn cadarnhau enw da Dani fel un o leisiau newydd pwysicaf Iwerddon.

**Currently based in Belfast, acclaimed folk singer-songwriter, producer and multi-instrumentalist Dani Larkin has been hailed as one of the finest songwriters of our times, and recently proved it true with the release of her second album *Next Of Kin* earlier this year. It's a deeply emotive exploration of the human experience, tracing a path from birth to the acceptance of death, balancing contradiction and connection, and exploring universal themes of love, fear, and courage. Witness a career-defining body of work that cements Dani's reputation as one of Ireland's most important new voices.**

**Genre:**

**Amgen-Werin / Canwr-gyfansoddwr cyfoes**
**Alt-Folk / Contemporary singer-songwriter**





***Beautiful, powerful***
***...absolutely stunning.***

**ANITA RANI,**

**BBC RADIO 4 WOMAN'S HOUR**

aberteifilive.co.uk



> ***…shaped by a background in folk, experimental choral performance and leftfield club culture***
>
> **BBC RADIO ULSTER**

**Genre:**

**Pop Electronig / Synthpop / Folktronica / Electronig / Dawns**
**Electronic Pop / Synthpop / Folktronica / Electronica / Dance**

# EtrA

Mae EtrA yn gantores electronig ac yn gynhyrchydd o Strabane sy'n cyfuno lleisiau uchel ac ysgubol ag electronica sy'n cael ei yrru gan synth a dylanwadau gwerin Wyddelig, gan greu cerddoriaeth electronig eufforig sy'n gwahodd cynulleidfaoedd i ymgolli ar y llawr dawnsio. Yn dilyn ei pherfformiad cyntaf yn yr Ŵyl Celtronic olaf mae Lauren Laverne wedi ei henwi fel un i'w gwylio ar BBC 6 Music, ac mae ei thair sengl i gyd wedi cael eu chwarae ar yr orsaf honno. Mae EtrA yn cyflwyno perfformiad byw sy'n ymgolli ac yn codi'r galon, ac sy'n ei gwneud hi'n amhosibl peidio â symud.

**EtrA is an electronic vocalist and producer from Strabane who blends soaring vocals with synth-driven electronica and Irish folk influences to craft euphoric electronic music that invites audiences to lose themselves on the dancefloor. Following her debut performance at the 25th and final Celtronic Festival, she's been named a BBC 6 Music "One to Watch" by Lauren Laverne, with all three singles receiving BBC 6 Music airplay. EtrA delivers a live set that's immersive, uplifting and impossible to stand still to.**

# FILMORE!

Mae Filmore!, prosiect amrywiol y canwr, y rapiwr a'r artist gweledol o Iwerddon, Max Zanga, yn creu bydoedd trochol sy'n cymysgu cerddoriaeth, perfformiad a chelfyddyd weledol, gan arwain at ddull beiddgar sy'n herio categorïau cerddorol traddodiadol ac yn cyfuno elfennau o hip-hop amgen, hyperpop, pync ac electronica.

Gan gael ei gydnabod fel llais unigryw sy'n gwthio ffiniau o fewn sîn gerddoriaeth amgen Iwerddon, mae gwaith diweddaraf Filmore! yn archwilio dyfnderoedd tywyllaf ddiwylliant ar-lein. Mae'n holi a oes unrhyw werth ar ôl yn y byd digidol, gan fynd i'r afael â materion fel diwylliant 'incel', y 'manosphere', misogyni, dawnsio TikTok i hil-laddiad, a chynnwys hiliol ar Twitter. Mae'r cyfan yn ofnadwy. Mae'r cyfan yn wallgof. Mae'r cyfan yn 'Brainrott'.

**Filmore!, the shapeshifting project of Irish singer, rapper, and visual artist Max Zanga, crafts immersive worlds that blur music, performance and visual art, fracturing into a daring, genre-defying approach to alternative hip-hop, hyperpop, punk and electronica.**

**Celebrated as a distinct, boundary-pushing voice within the Irish alternative music scene, Filmore!'s latest work explores the deepest, most twisted depths of online culture and asks whether there's any value left in the digital world, addressing incel culture, manosphere, misogyny, TikTok dancing to genocide and racist Twitter threads. It's all terrible. It's all insane. It's all Brainrott.**

**Genre:**

**Hyperpop / Punc / Hip-hop / Sŵn electronig**
**Hyperpop / Punk / Hip-hop / Electronic noise**





***A nostalgia-fuelled meld of hyperpop and 2000s MTV-era pop/ punk.***

**HOT PRESS**

# KIZZY CRAWFORD

Mae Kizzy Crawford, sy'n dod o Aberfan, yn gantores-gyfansoddwraig, cynhyrchydd ac aml-offerynwraig o Gymru sy'n cyfuno cerddoriaeth soul, jazz, gwerin a ffync i greu sain ymdrochol sy'n torri ffiniau genres. Gan berfformio yn y Gymraeg ac yn Saesneg, mae ei gwaith yn cyfuno cynhyrchiad aml-haenog, lleisiau mynegiannol a geiriau bywiog, gan greu sain sy'n atmosfferig ac yn bersonol iawn, yn hardd, yn llawn emosiwn ac yn ysbrydoledig, ac sy'n arwain y ffordd i'r genhedlaeth bresennol o artistiaid du o Gymru.

From Aberfan, Kizzy Crawford is a Welsh singer-songwriter, producer and multi-instrumentalist who blends soul, jazz, folk and funk into immersive, genre-defying music. Performing in both Welsh and English, her work combines layered production, expressive vocals and vivid lyricism, creating a sound that is both atmospheric and deeply personal, beautiful, soulful and inspiring, and leading the way for the current generation of black Welsh artists.

**Genre:**

**Arbrofol / Jazz / Soul / Gwerin / Ffync / R&B**
**Experimental / Jazz / Soul / Folk / Funk / R&B**

***Real Talent***

**HUW STEPHENS,**
**BBC RADIO 1**



# LEMONCELLO

Mae rhyw hud arbennig yn codi pan fydd Lemoncello o Ddulyn (Laura Quirke a Claire Kinsella) yn canu gyda'i gilydd, gan dorri drwy dirwedd sain finimalaidd ond dramatig sy'n cael ei yrru gan batrymau gitâr a chwarae sielo sy'n hynod wreiddiol, yn arw ac yn llawn naws. Caiff cynulleidfaoedd eu swyno i fyd o sylwadau personol a chwestiynau anghyfforddus drwy gyfuniad anorchfygol o gyd-ddealltwriaeth naturiol, carisma a hiwmor, wrth iddynt gael eu cofleidio gan eu sain unigryw, sy'n gwreiddio mewn cerddoriaeth werin Wyddelig, pop indi anghonfensiynol a dylanwadau clasurol cyfoes. Drwy arddull adrodd straeon sy'n agos at y galon ac yn hynod bersonol, mae eu halbwm newydd, *Perfect Place*, yn myfyrio ar y tensiwn modern rhwng undod, ymwahaniad ac anrhefn natur ddynol gyda derbyniad radical a thosturi.

**There is a rare alchemy that occurs when Dublin's Lemoncello (Laura Quirke and Claire Kinsella) sing together, cutting through a minimal yet dramatic soundscape driven by cyclical, finger-picked guitar and earthy, gritty cello playing. Audiences are charmed into a world of intimate observations and uncomfortable questions with irresistible chemistry, charisma, and humour, while blanketed in their unique sound - embedded in Irish folk roots, off-kilter-indie pop and contemporary classical influences. Through an intimate and devastatingly personal style of storytelling, their new album *Perfect Place* reflects upon the modern tension between togetherness, alienation and the chaos of human nature with radical acceptance and compassion.**

**Genre:**

**Amgen-Gwerin**
**Alt-folk**



***a feat of musical alchemy that should, must, bring them a wider audience***

**POP MATTERS**



aberteifilive.co.uk

# MACE THE GREAT

Yn dod o Gaerdydd, mae Mace The Great yn ffigwr arloesol ym myd rap, hip-hop a grime, gan swyno cynulleidfaoedd ledled y byd gyda'i sain ddeinamig a'i bresenoldeb trawiadol. Gyda chefnogaeth a chanmoliaeth gan enwau mawr y diwydiant, gan gynnwys BBC Cymru, BBC Radio 1Xtra, Wonderland, NME ac eraill, mae Mace wedi meithrin sylfaen gefnogwyr ymroddedig sydd i gadw tyfu, gan gynrychioli treftadaeth gerddorol gyfoethog Caerdydd ar lwyfan byd-eang yn falch.

Mae cyflawniadau Mace yn amlygu ei botensial eithriadol a'i weledigaeth greadigol flaengar. Mae ei berfformiadau byw bywiog – ar lwyfannau eiconig fel SXSW a Glastonbury – yn parhau i gadarnhau ei statws fel un o artistiaid newydd mwyaf cyffrous y DU.

**Hailing from Cardiff, Mace The Great is a trailblazing force in rap, hip-hop, and grime, captivating audiences worldwide with his dynamic sound and commanding presence. Backed by acclaim from industry heavyweights including BBC Wales, BBC Radio 1Xtra, Wonderland, NME, and more, Mace has built a dedicated and growing fanbase, proudly representing Cardiff's rich musical heritage on a global stage.**

**Mace's achievements highlight his exceptional potential and forward-thinking creative vision. His electrifying live performances — spanning iconic stages from SXSW to Glastonbury — continue to cement his status as one of the UK's most exciting rising artists.**

**Genre:**

**Grime / Garej**
**Grime / Garage**





***...one of the hardest MCs coming out of Wales right now! Always loved his flow and lyrical wordplay. Every time he jumps on a track, you know he's bringing bars***

**BEATBOX TANGENT**

# MARED

Gyda'i gwreiddiau ger Conwy yng ngogledd Cymru, mae gyrfa Mared wedi'i gweld yn cyfuno actio â cherddoriaeth ac enillodd wobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn yn 2021 am ei halbwm cyntaf, *Y Drefn*. Ers hynny, mae hi wedi datblygu'n un o dalentau cerddorol ifanc mwyaf blaenllaw Cymru, gan greu cyfuniad meistrolgar o gerddoriaeth werin a 'soul-pop'. Mae ei EP diweddaraf, *Everything I Left Behind*, yn cyfuno geiriau barddonol, gweadau acwstig cynnes ac adrodd straeon dwyieithog ac mae hi'n teimlo'n gartrefol ac yn hyderus wrth berfformio gyda band o saith aelod, yn ogystal fel perfformiwr unigol hudolus – fel y gwelir yma yn Aberteifi.

**Rooted near Conwy in north Wales, Mared's career has seen her combine acting with music and she won Welsh Album Of The Year 2021 for her debut *Y Drefn*. Since then, she has blossomed into one of Wales' leading young musical talents, evolving into a masterful blend of folk and soul-pop. Her latest EP *Everything I Left Behind* blends poetic lyricism, warm acoustic textures, and bilingual storytelling, and she's equally at home with a 7-piece band, or as here in Aberteifi, as a mesmerising solo performer.**

**Genre:**

**Gwerin / Indi / Soul / Pop / Cantores-gyfansoddwraig**
**Folk/ indie/ Soul/ Pop / Singer-songwriter**

***...one of Wales' leading young musical talents.***

**NATION.CYMRU**






# MORN

Wnaeth ymddangosiad cyntaf cyffrous MORN yn Aberteifi yn Lleisiau Eraill 2025 eu cadarnhau fel un o fandiau mwyaf cyffrous Cymru ar hyn o bryd, gan gyflwyno cymysgedd gafaelgar o leisiau sy'n datgelu'r enaid, wedi'u plethu ag egni pur a di-hid. Mae'r grŵp pedwar aelod yn cynnwys dau bâr o frodyr a chwiorydd o gefn gwlad Sir Fynwy, ac mae eu perfformiadau byw yn cyfleu ymdeimlad dwys o frys ac egni anhrefnus gan fand sydd heb ofn gwthio pethau i'r eithaf. Yn wirioneddol eithriadol.

**MORN's thrilling Aberteifi debut appearance at Other Voices 2025 confirmed their place as one of Wales' most exciting bands of the moment, delivering a compelling mix of soul-baring vocals draped upon an unfiltered catharsis of energy. The 4-piece comprise two sets of siblings from the farmlands of Monmouth, and their live performance transmits an intense sense of urgency and chaotic energy from a band unafraid to push it to the limit. Genuinely extraordinary.**

**Genre:**

**Pync / Ôl-Pync / Roc / Indi**
**Punk / Post-Punk / Rock / Indie**

# MUIREANN NÍ SHÉ

Mae'r pibydd Uilleann a'r gantores o Swydd Corc, Muireann Ní Shé, wedi ymgolli yn yr iaith, cerddoriaeth a chân Wyddeleg ers plentyndod, gan wreiddio ei sain yn y profiadau cynnar hyn, ond hefyd yn cymryd dylanwadau o recordiadau archif o gerddorion chwedlonol. Teimlai ei bod yn rhaid iddi rannu'r byd cerddorol sy'n ei hysbrydoli mewn ffordd sydd hefyd yn adlewyrchu'r byd cyfoes y mae'n byw ynddo, mae Ní Shé yn cynrychioli cyfuniad o syniadau ac yn rhan o don o gerddorion benywaidd o Iwerddon sy'n mynd â'r pibau uilleann tuag at y dyfodol, gan arddangos ei dawn arbennig mewn arddulliau lleisiol sy'n tynnu ysbrydoliaeth o'r traddodiad sean-nós, fel y gwelir ar ei halbwm cyntaf, *Éistigh Liomsa Sealad* (2023).

**Uilleann piper and singer from County Cork, Muireann Ní Shé has been immersed in Irish language, music and song since childhood, rooting her sound in these early experiences, but also taking influences from archival recordings of legendary musicians. Compelled to share the musical world that inspires her in a way that also reflects the contemporary world she lives in, Ní Shé is a convergence of propositions, part of a wave of female Irish musicians taking the uilleann pipes into the future with her own prowess in sean nós-inspired vocal stylings as demonstrated on her debut album *Éistigh Liomsa Sealad* (2023).**

**Genre:**

**Traddodiadol / Gwerin / Gwyddelig Traddodiadol**
**Traditional / Folk / Irish Traditional**





**"*The weight and grounding of tradition … the evocative and the intransigent… truly compelling.*"**

**BANDCAMP DAILY**

# SLATE

Un o'r bandiau mwyaf cyffrous i ddod i'r amlwg o sîn gerddoriaeth ffyniannus Caerdydd yn y blynyddoedd diweddar yw Slate, y band pedwar aelod sy'n etifeddion i draddodiad y gwlad o adrodd straeon. Maent yn harneisio ac yn ail-ddychmygu sylfeini gothig 'post-punk' i greu sain sy'n llawn nerth melodig a dwysedd cyffrous, gwefreiddiol. Denodd eu senglau cynnar rhyfeddol, 'Tabernacl' a 'St Agatha', sylw a chanmoliaeth; roeddent yn dywyll, yn fyfyriol ac yn afaelgar. Yn dilyn eu perfformiad cyntaf yn Aberteifi yn Lleisiau Eraill 2024, rydym wrth ein bodd yn eu croesawu'n ôl. Cerddoriaeth felancolaidd, ddwys, wyllt, feiddgar, anobeithiol ac anturus ar gyfer ein cyfnod.

**One of the most exciting bands to emerge from Cardiff's burgeoning music scene in recent years have been 4-piece Slate, heirs to their country's lineage of storytellers, who harness and reimagine the gothic foundations of post-punk and deliver a sound that's full of melodic force and white-knuckled intensity. Extraordinary early singles 'Tabernacl' and 'St Agatha' drew attention and praise, dark, brooding and compelling. New material has followed and after their Aberteifi debut at Other Voices 2024 we're delighted to welcome them back. Melancholic, intense, wild, bold, despairing and daring music for our times.**

**Genre:**

**Ôl-Pync / Gothig Roc**
**Post-Punk/ Gothic Rock**





***raw, primal, propulsive and...***
***well, f*cking fantastic.***

**LOUNDER THAN WAR**

# TAI HAF HEB DRIGOLYN

Mae'r grŵp cerddorol Tai Haf Heb Drigolyn, sydd wedi'u lleoli yn Aberystwyth, yn un o'r grwpiau newydd mwyaf cyffrous yng Nghymru; maent yn cyfuno llawenydd ac ethos cerddorol DIY gyda'i holl amherffeithrwydd, a sain archwiliadol 'lo-fi' syfrdanol, gan adlewyrchu dylanwadau fel Lou Reed a The Velvet Underground. Cafodd eu halbwm cyntaf, 'Ein Albwm Cyntaf Ni', ei gynnwys ar restr fer Gwobr Cerddoriaeth Cymru, a denodd sylw Attila The Stockbroker, a ysgrifennodd: "nhw yw plant ysbrydol fy ffrind mawr, sydd bellach ddim yma rhagor, David R Edwards o Datblygu, arloeswr mawr y sîn gerddoriaeth Gymraeg 'lo-fi' danddaearol."

**Aberystwyth-based band collective Tai Haf Heb Drigolyn are one of Wales' most exciting emerging prospects, combining the joy of a collective DIY music ethos sprinkled with imperfections and a lo-fi, mind-bending exploratory sound with nods to Lou Reed and The Velvet Underground. Their debut album 'Ein Albwm Cyntaf Ni' was shortlisted for the Welsh Music Prize, and drew the attention of Attila The Stockbroker who wrote "they are the spiritual children of my great and now late friend David R Edwards of Datblygu, the great pioneer of the lo-fi underground Welsh language music scene."**

**Genre:**

**Indi / Pop Seicedelig**
**Indie / Psychedelic Pop**



# TESSIO

Ar ôl swyno cynulleidfaoedd yn Aberteifi yn Lleisiau Eraill 2025, rydym wrth ein bodd croesawu Tessio yn ôl – sef Jude McCandless a Callum Feeney – deuawd hyfryd o gantorion-gyfansoddwyr o Derry sy'n cyfuno gitarau acwstig a harmonïau yn debyg i The Everly Brothers. Mae eu perfformiadau byw hudolus yn arbennig iawn diolch i'w dawn ragorol o gyfansoddi caneuon a'u swyn naturiol, fel y cadarnhawyd gan eu henwebiad diweddar ar gyfer y wobr 'Perfformiad Byw Orau' yng Ngwobrau Cerddoriaeth Gogledd Iwerddon.

**Having wowed Aberteifi audiences at Other Voices 2025, we're delighted to welcome back Tessio - Jude McCandless and Callum Feeney - a gorgeous singer-songwriter duo from Derry who combine acoustic guitars with close vocal harmonies akin to The Everly Brothers. Their spellbinding live performances are made all the more special by their superb songwriting craft and effortless charm, confirmed by their recent nomination for Best Live Act at the NI Music Prize.**

**Genre:**

**Canwr-Gyfansoddwr / Gwerin / Indi**
**Singer-Songwriter / Folk / Indie**



***a skill for songwriting way beyond their years.***

**CHORDBLOSSOM**

aberteifilive.co.uk

# TOKOMOLOLO

Un o uchafbwyntiau Lleisiau Eraill Aberteifi 2025 oedd yr alcemegydd o Ynys Môn, Tokomololo – artist cerddoriaeth ddawns electronig, aml-offerynnwr a chynhyrchydd (neu Meilir Tee Evans) – sy'n cyfuno gweadau dawns gynnes, llawn heulwen â lleisiau Cymraeg a recordiadau maes o fynyddoedd Eryri.

Wedi rhyddhau'r EP *Cysgod Lliwgar* a nifer o senglau yn ddiweddar, ac wedi'i ysbrydoli gan artistiaid fel Four Tet, Bonobo a Caribou, mae'n defnyddio loops, samplau a haenau lleisiol i greu setiau byw cyfoethog sy'n gwneud i'r gynulleidfa symud i'w rythm llawen.

**One of the big hits at Other Voices Aberteifi 2025 was Anglesey alchemist Tokomololo, an electronic dance artist, multi-instrumentalist and producer - aka Meilir Tee Evans - who fuses warm, sun-drenched dance textures with Welsh-language vocals and field recordings from the Eryri mountains.**

**Recently releasing an EP *Cysgod Lliwgar* and multiple singles, and inspired by artists such as Four Tet, Bonobo and Caribou, he uses loops, samples and vocal layers to build rich live sets that make audiences move to his joyful groove.**

**Genre:**

**Electronica / Indi / Electroneg**
**Electronica / Indie / Electronic**





***right at the forefront of contemporary Welsh electronic music.***

**CLASH**

# DJs

Yn cadw'r llawr dawns i fynd i oriau mân y bore.....
